DINESYDD
PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

146 MEHEFIN 1988

# AR WERTH

MAE PRISIAU tai yng Nghaerdydd a'r cylch wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod pum mis cyntaf 1988, a'r tebygolrwydd yw y byddant yn parhau i gynyddu am y flwyddyn nesaf o leiaf.

Cafwyd cynnydd mwy na'r cyffredin ymron i bob ardal o'r Brifddinas, ond yn ardaloedd megis Cyncoed, Llysfaen, Rhiwbeina, Radyr a'r Eglwys Newydd y gwelwyd y cynydd mwyaf trawiadol. Dywed asiantwyr bod yna brinder affwysol o dai sylweddol gyda phedair neu ragor o ystafelloedd gwely ynghyd a gerddi a garej. O ganlyniad, pan ddaw tai o'r fath ar y farchnad mae'r cystadlu yn frwd ac o fewn ychydig fisoedd gwelwyd tai a fyddai'n gwerthu am oddeutu £70,000 y llynedd yn cael eu gwerthu am dros £100,000.

Dywed datblygwyr tai hefyd bod yna gynnydd sylweddol yn y galw am dai newydd moethus. Mae cwmni lleol Bailey Homes sydd ar fin cwblhau datblygiad o chwech o dai hynod foethus yn Llysfaen, eisoes wedi gwerthu nifer ohonynt a hynny am dros £185,000. Dywed y cwmni bod galw cynyddol am dai o'r fath a'u bod yn chwilio am gyfleoedd pellach i ddatblygu.

Mae'r tuedd hwn yn cadarnhau'r ofnau a fynegwyd gan lawer o bobl sy'n byw mewn ardaloedd i'r gogledd neu'r gorllewin o Gaerdydd fod cornel De-ddwyreiniol Cymru - o'r Bont-Faen i Gasgwent - yn brysur ddatblygu'n llawer cyfoethocach na gweddill y wlad, gan ail adrodd yr hyn sy'n digwydd yn Ne-ddwyrain Lloegr.

Un rheswm dros hyn, wrth gwrs, yw'r cyfoeth naturiol sy'n perthyn i'r brif-ddinas a'i chyffuniau yn sgil y cyfartaledd uchel o gyflogwyr sefydliadol a phroffesiynol. Ond rheswm arall, llai dymunol, yw sgil effeithiau'r hyn sy'n digwydd yn Ne-Ddwyrain Lloegr.

Wrth i brisoedd eiddo yn ac o gwmpas Llundain gynyddu'n waligo o gyflym mae nifer cynyddol o bobl yn barotach i ystyried byw ymhellach o Lundain a theithio yno i weithio. Wrth i bobl gwerthu eu heiddo yn y De-ddwyrain a symud ymhellach oddi yno gwelir prisoedd yn cynyddu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cafwyd cynnydd sylweddol ym mhrisoedd eiddo yng nghyffiniau Bryste, ac mae effaith hynny i'w deimlo'n gryf yng Nghaerdydd erbyn hyn. Nid yn unig y mae llawer o bobl yn croesi'r afon Hafren i chwilio am gartrefi newydd, ond mae cwmnioedd datblygu o Orllewin Lloegr yn ymestyn eu gweithgareddau i Gaerdydd.

Yn Ystum Taf, er enghraifft, ar safle hen waith dur Melin Gruffydd, mae cwmni McInerny Homes (West) Ltd yn cychwyn datblygiad o dai a elwir yn Millbrook, a cheir engrheifftiau cyffelyb mewn rhannau eraill o'r brifddinas.

Ar un olwg mae'r cynnydd cyffredinol mewn gwerth eiddo yn newyddion da i berchnogion tai yn Ngaerdydd, ond mae yna sgil effeithiau digon niweidiol a negyddol a ddaw yn sgil hyn oll. Oherwydd maint y galw am dai teuluol mae'n ddigon rhwydd i werthu ar hyn o bryd, ond yn hytrach na disgwyl cynigion sy'n agos i werth gwirioneddol eu heiddo mae nifer o werthwyr bellach yn disgwyl cael rhagor na gwerth eu tai.

Ar ben hynny dywedir fod yr arfer o "gazumping" yn lledu trwy'r brifddinas wrth i bobl sy'n gwerthu eu tai dderbyn cynnig uwch nag a ofynwyd amdano, a hynny ar ol cytuno i werthu i brynwr arall. Dywed yr asiantwyr eu bod yn gwrthwynebu'r arfer, ond eisoes gwelir hysbysebion yn atodiad eiddo'r Western Mail sy'n gorffen fel a ganlyn: "offers over £89,000 considered" neu "Offers over £155,000".

Nid yw datblygiad o'r fath yn gymorth i neb ar ddiwedd y dydd, a chyn ystyried derbyn ail gynnig sy'n uwch na'r pris a ofynwyd amdano yn y lle cyntaf dylai pob gwerthwr gofio y gallai'r un peth ddigwydd iddo fe neu hi.



## Colofn Shân Emlyn



# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Y mae amser prysur a chyffrous o flaen criw gweithgar 'Y Dinesydd'. Yn yr wythnosau diwethaf 'ma bu sawl dirprwyiaeth i bencadlys y South Wales Argus i geisio cael rhyw fath o bapur Cymraeg yn ystod Eisteddfod Casnewydd. Wedi hir drafod, cydweithrediad a brwdfrydedd o du pawb a sêl bendith gweithwyr yr Eisteddfod cytunwyd i ddod a phapur newydd Cymraeg dyddiol yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd. Bydd yn bapur o bedair tudalen fydd wedi'i lapio y tu allan i rifyn arferol y South Wales Argus.

Camp fwyaf 'Y Dinesydd' erioed oedd 'Y Dinesydd Dyddiol' yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Clamp o her fydd 'Argus yr Eisteddfod' hefyd. Ein bwriad yw hybu ac adlewyrchu cyffro'r deffroad Cymraeg yng Ngwent, er mor fechan yw. Bwriadwn roi gwybodaeth a chefndir i Eisteddfodwyr am y fro, 'i chefndir ac hefyd gwybodaeth ymarferol am gyfleusterau'r ardal. Bydd ynddo adolygiadau oll fwrlwm yr Wyl, yn gyngherddau, dramau, Y Babell Lên, Blas Caa y Seremoniau a lluniau, a phwy ŵyr na chawn ni ambell i gartwn gan Cen. Os teimla unrhyw ddarllenydd bod ganddo rhywbeth i'w gyfrannu, da chi, cysylltwch â mi, mi fydd angen pob sill i gyflawni'r dasg.

Ein bwriad ni fydd troi ati ar ôl i'r rhifyn hwn ymddangos i baratoi cymaint ag y gallwn o ddeunydd ar gyfer y fenter fawr yng Nghasnewydd. Gobeithio felly y gwnewch chi, ein darllenwyr, ddeall a chymeradwyo'n penderfyniad i beidio â chyhoeddi'r Dinesydd ym mis Gorffennaf - o golli un pryd gobeithiwn gynnig gwledd i chi ym mis Medi!

# LLYTHYRAU

APEL GENEDLAETHOL
MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

EBRILL 1988 - MAI 1989

Annwyl Gymwynaswyr

Ar ddiwedd fy nghyfnod fel Cadeirydd Cenedlaethol y Mudiad yn 1985, rhedais o gwmpas Llyn Tegid ym Mini Marathon yr Urdd (12 milltir) a llwyddais i godi bron i £5,000 o arian nawdd.

Eleni, unwaith eto, bwriadaf wisgo fy sgidiau rhedeg ar ddydd Sadwrn, y 25ain o Fehefin a rhedeg o gwmpas Llyn Tegid er mwyn codi arian tuag at Apêl Genedlaethol Mudiad Ysgolion Meithrin.

Mae pob Sir yng Nghymru wedi cael nod i ymgyrraedd ato er mwyn codi'r £50,000 a anelir ei godi, mewn blwyddyn i hybu'r gwaith tra phwysig o gadw neu roi'r Gymraeg, ein trysor pennaf fel cenedl, ar wefusau ein plant.

Gan fy mod yn ystyried Mudiad Ysgolion Meithrin fel y mudiad pwysicaf yn y frwydr i gadw'r iaith i'r oesoedd a ddêl, ga'i ofyn i chi unwaith eto am eich nawdd i'm bwriad o redeg o gwmpas Llyn Tegid gan nodi at nod pa Ranbarth yr hoffech gyfrannu tuag ato.
Rhowch mor hael ag sy'n bosibl, os gwelwch yn dda. Mae'r achos yn un teilwng a byddai'n anrheg penblwydd 18 oed ardderchog pe baem yn gallu codi'r £50,000 erbyn 1989.

Diolch ymlaen llaw

Gwilym E Roberts
Rhiwbeina
Caerdydd

AMUGEDDFA WERIN CYMRU

40 MLYNEDD SEFYDLU AMGUEDDFA WERIN CYMRU _ AMLEN I GASGLWYR

Bwriedir cynhyrchu amlen ddarluniadol arbennig i ddathlu deugain mlynedd sefydlu Amgueddfa Werin Cymru yng Nghastell Sain Ffagan. Bydd yr amlen yn cynnwys cynllun amryliw wedi ei selio ar logo poblogaidd yr Wyl Fai gyda stamp Cymreig dosbarth cyntaf. Fe ganslir yr amlen â stamp llaw arbennig yn dwyn arwydd Amgueddfa Genedlaethol Cymru ar 1af Gorffennaf, sef deugain mlynedd i'r dydd yr agorwyd yr Amgueddfa Werin yn swyddogol. Gellir archebu'r amlenni am £2.00 yr un o: Amlen 40 mlynedd, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Dylai'r sawl sydd â diddordeb amgau eu henw a'u cyfeiriad yn ogystal â siec neu archeb post.

Gwybodaeth bellach

Yr Adran Farchnata
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd
CF5 6XB

Ffôn (0222) 555105

BBC
32 Heol Alecsandra
Abertawe

Annwyl Shân Emlyn

Os ganddoch chi awydd treulio noson fywiol wahanol ar nos Iau 9fed o Fehefin?

Dewch draw i Glwb Ifor Bach erbyn 7 o'r gloch pan fydd Radio Cymru yn recordio rhaglenni ar gyfer cyfres newydd sbon danlli o'r enw 'Ffau'r Llewod'.

Cyfres i'r ifanc ydi hi (wel, yn benodol) wedi'i selio ar y gêm 'Scruples', ac mi fydd angen cynull-eidfa i roi help llaw i Keith 'Bach' Davies benderfynu ar y sgôr.

Eich 'yuppies' (neu 'gypis') lleol fydd yn cystadlu - a phwy yw y rhai hynny? Dewch draw i weld Ffau'r Llewod.

Yr eiddoch yn gywir

Bethan Evans
Cynhyrchydd 'Ffau'r Llewod'

Canolfan y BBC
Llandâf
Caerdydd
CF5 2YQ

20 Ebrill 1988

Annwyl ddarllenwyr

Mae Radio Cymru yn chwilio am bobl i gyfrannu i gyfres newydd sy'n ymwneud â phob agwedd o gasglu a gofalu am hen drysorau, o jwg nain i ddresar Anti Nel!

Os oes gennych chi gasgliad, gwybodaeth neu hanes diddorol, a wnewch chi gysylltu ag

'Ambell drysor'
Ystafell 3012
BBC
Llandâf, Caerdydd

Os ydych o fewn cyrraedd ffôn, naill ai gartref neu yn y gwaith, nodwch eich rhif ar eich llythyr.

Yn gywir iawn

John Jenkins
Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus, Cymru


MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Yn Eisiau

CLERC/TEIPYDD

Anfoner am fanylion pellach a ffurflen gais at:

Y Cyfarwyddwr
Mudiad Ysgolion Meithrin
10 Park Grove
Caerdydd CF1 3BN
Tel 0222 36205

Dyddiad cau Mehefin 10 1988


# Y CALENDR

**Eglwys Babyddol Sant Cadoc, Y Bontfaen. Bob dydd Sul am 5.00 o'r gloch a'r ysgol Sul am 4.30 (heblaw gwyliau ysgol). Am fanylion pellach cysylltwch a Carys Whelan. 913 2888.**

Ffair Haf: Mehefin 11fed 2pm

YSGOL BRO EIRWG
Ffordd Ridgeway, Tredelerch/ Rhymni
Caerdydd

BBQ Mehefin 29ain 6pm

YSGOL BRO EIRWG
Caerdydd

**Mehefin 29 Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro. Siaradwr: Brinley Jenkins.**

Ysgol Iolo Morgannwg yn cyflwyno Cyngerdd 'Y Beibl Cysegrlan' gan Sian Morgan Ellis, yn: Neuadd y Dref, Y Bontfaen, Nos Fawrth Mehefin 28ain am 7 o'r gloch.
Ysgol Llanilltud Fawr, Nos Iau Mehefin 30ain am 7 o'r gloch.

Rhaglen nodwedd ar fywyd a gwaith yr esgob William Morgan gan Ysgolion Cynradd Cymraeg: Y Wern, Melin Gruffydd a Bro Eirwg yn neuadd 'Reardon Smith', Yr Amgueddfa Genedlaethol nos Wener Gorffennaf 1af am 7.30 o'r gloch.


££££££

CHWYDDO'R COFFRAU

Bu Eglwysi a Chymdeithasau Cymraeg Caerdydd a'r Cylch yn hael iawn eu cefnogaeth i'r Dinesydd y flwyddyn diwetha'. Dymuna Pwyllgor Rheoli y Dinesydd ddiolch yn wresog iawn iddynt am eu cyfraniadau tuag at gostau cynyddol cynnal papur Cymraeg y Ddinas. Edrychwn ymlaen at barhâd eu cefnogaeth yn y flwyddyn 1988-89 a gwahoddwn eraill sydd ddim yn ymddangos ar y rhestr isod i ystyried cefnogi'r Dinesydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd y Trysorydd, 17 West Orchard Crescent, Llandâf CF5 1AR yn falch iawn o dderbyn pob cyfraniad ariannol.

| | £ |
|---|---|
| Eglwys Minny Street | 15 |
| Cymdeithas Chwiorydd Minny St | 10 |
| Eglwys Heol y Crwys | 15 |
| Eglwys Salem, Canton | 10 |
| Cymrodorion Caerdydd | 10 |
| Cymdeithas Dinas Powys | 15 |
| Merched y Wawr | 65 |
| Cylch Cinio Merched Caerdydd | 100 |
| Cylch Cinio Dynion Caerdydd | 75 |
| Cylch Cinio y Barri | 20 |
| Cymdeithas Canna | 100 |
| | 435 |

££££££

# TOM — CYFARCHION — KEN



Yn ystod yr haf eleni, gydag ymmdeoliad un o ddinasyddion mwyaf - ym mhob ystyr - ein cylch, daw pennod go faith i ben yn hanes addysg gynradd Gymraeg ein prif-ddinas. Cyfeiriaf wrth gwrs at Mr Tom Evans, Prifathro Ysgol Coed y Gôf. Ef fyddai'r olaf i gydnabod maint ei ymroddiad diflino, dirodres a diymhongar i fyd addysg Gymraeg y ddinas. Bu sawl cenedlaeth o blant dan ei adain a hwy a'i rhieni yn ddyledus iddo am ei arweiniad cadarn yn arbennig felly yn ystod y dyddiau blin pan symudodd Bryntaf o'i safle at y Parêd. Yn ystod ei ofalaeth fel Prifathro Bryntaf, chwyddodd ffrwd y plant yn afon a bellach mae yna bump ysgol gynradd yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd.

Bu pob un o'm tri phlentyn o dan ei ofal a daw sawl darlun i'm cof wrth edrych yn ôl dros eu dyddiau ysgol; Tom fel Cadfridog yn tywys gorymdaith o blant ar hyd y llwybr o'r bysiau i'r ysgol yn wyneb bygythiad tyrfa leol; Tom, adeg Pasiant y Plant yr Eisteddfod Caerdydd yn bersonol yn gollwng pob plentyn trwy ddrws cefn y Theatr Newydd i ddwylo rhieni; Tom yn gwenu'n ddiobaith uwchben ei Fathemateg newydd mewn gweithdy; Tom â phlant yn hongian o bob llaw ac yn gafael yn ei drowsus; llais Tom ar y ffôn yn gysur i gyd a minnau am y canfed tro yn trafod problemau un o'm hepil. Ac ati. Yn ddiweddar bu'n arloeswr yn y frwydr i sefydlu uned yng Nghoedy Gof i blant Cymraeg eu hiaith an anghenion arbennig. Dyma fynydd o ddyn ym mhob ystyr. Ac yn gymeriad diffwdan bydd yn sicr o wffio wrth ddarllen y geiriau yma. Mawr yw'n dyled i chi Tom, a dymunwn pob bendith a dedwyddwch i chi a Freda a'r merched yn y blynyddoedd a ddaw - gwneud yn fawr ohonynt!

Ann Saer

Deallwn bod Cymdeithas Rieni bresennol yr ysgol yn trefnu noson anffurfiol yn mis Gorffennaf i ddiolch i Mr Tom Evans ac i ddymuno'n dda iddo fo a'i deulu i gyd.

Mi fydd Ken Innes yn ymddeol fel prifathro Ysgol Brynderi, Radyr ar ddiwedd y tymor hwn. Bydd ef, a'i wraig Anne, yn dal i fyw yng Nghaerdydd ac yn parhau i chwarae'u rhan yng nghymdeithas Gymraeg y ddinas. Dyna'r ffeithiau moel, ond cymaint mwy sy'n gorwedd y tu ôl i'r ffeithiau hynny. Ystalyfera oedd y cefndir i'w fachgendod a'i lencyndod - Ysgol y Wern a'r Ysgol Ramadeg. Fel llanc golygus, doedd yna ddim amdani ond dewis gwasanaeth milwrol gyda'r 'Brylcreem Boys' ac wedi hynny i Goleg Caerleon.


Bu'n rhaid iddo dreulio rhai blynyddoedd fel athro yn LLoegr cyn dychwelyd i Gymru. I ble? Wel i Ysgol Brynderi, Radyr ble mae'n gorffen ei yrfa fel prifathro.

Mae 'na brifathrawon a phrifathrawon mae'r rhai gorau'n gadael eu stamp ar ysgol ond mae yna griw bach dethol o brifathrawon sy'n gadael eu marc ac yn cael gwerthfawrogi o fewn cymdogaeth gan genhedlaeth o blant a rhieni. Does dim rhaid i chi dderbyn fy ngair i bod Ken yn un o'r ychydig ddethol rai, gellwch fynd am dro i Dongwynlais a chewch glywed am ei ymdrechion dros y plant fu dan ei ofal fel athro a phrifathro. Ac os nad ydy hynny'n ddigon, crwydrwch draw i ucheldérau Radyr i glywed yr union stori gan y rhieni, y disgyblion, y cyn-ddisgyblion a'r athrawon a'r athrawesau hynny fu'n cyd-weithio ag ef.

Beth wnaiff ar ôl ymddeol? Mae hynny'n gwestiwn anodd i'w ateb. Fedr neb rywsut ddychmygu Ken yn gwisgo het wellt a chrwydro'n hamddenol a segur ar hyd strydoedd ein maestrefi. Gellir mentro na fydd yn chwarae rygbi fel y bu i'r hen ysgol na chwrso'r bêl gron fel un o beldroedwyr peryclaf Tŷ'r Cymry, lle bu'n flaenllaw iawn mewn llawer agwedd ar fywyd cymdeithasol Caerdydd yn anterth enwogrwydd y lle. Gall ddangos ei fedr ar dennis bwrdd i'r cryts ifanc 'ma o hyd, dyw'r medrusrwydd llaw a'r cytgord perffaith rhwng yr ymennydd a'r llygaid barcud a'i gwnaeth yn aelod o dîm gwych Y M C A Caerdydd ddim wedi cilio'n llwyr. Efallai y gwnaiff ddangos ei fedr ar wyrddni'r bwrdd snwcer nawr ac yn y man, ond yn ôl pob stori mae stribed o wyrddni gwahanol yn mynd â'i fryd y dyddiau hyn. Mae pencampwyr clwb Bowlio Rhiwbeina'n mewn braw a dychryn dirfawr wrth deimlo sialens pencampwr ifanc newydd.

Daw'n amser eto, efallai i ail-gydio yn ei hoffter o actio - ydy un o brif gystadleuwyr y Burton ifanc yn mynd i ddatblygu i fod yn un o gewri llwyfan y prifddinas ar ei ymddeoliad?

Ta waeth beth fydd ei ddewis - dymuna pawb o'i gydnabod bob llwyddiant ac hapusrwydd iddo. Mae'n sicr y gwnaiff pa beth bynnag fydd ei ddewis allan o'r myrdd o dalentau sy ganddo, gyda'r un ymroddiad a'r un gallu a ddangosodd ar hyd y blynyddoedd wrth geisio sicrhau bod plant ei ddosbarth a phlant yr ysgolion dan ei ofal yn cael pob chwarae teg i ddatblygu pob agwedd ar eu doniau. Dymunwn pob hwyl ac iechyd iddo yn y cyfnod nesaf yn ei fywyd prysur.



# COFIO

ANNIE ELEANOR HUMPHREYS
1909 - 1988

Fe ddywedai unrhyw gymdeithasegydd diduwedd nad peth arferol oedd i ferch i ddyn busnes ym Merthyr yn y 1930au gefnogi un o'r mudiadau canlynol: heddychiaeth, cenedlaetholdeb a'r iaith Gymraeg.

Wrth gefnogi'r tri felly 'roedd Annie Eleanor Humphreys (ganedig Jones), yn anarferol iawn. 'Roedd hi'n amlygu cadernid cymeriad ac egwyddorion i fod bleidiol i'r pethau hyn mewn cyfnod pryd ac mewn cwr o'r wlad lle nad oedd iddynt, ar y gorau, fawr o gydymdeimlad cyhoeddus. Serch hynny, fe fu'r pethau hyn yn holl bwysig iddi ar hyd ei hoes ddefnyddiol a diwyd.

Graddiodd yng Ngholeg y Brifysgol Bangor yn y Gymraeg yn nosbarth Syr Ifor Williams, a chwarae rhan amlwg ym mywyd y Coleg fel Is-Lywydd y Myfyrwyr ym 1930-31. Ei bwriad ar ôl graddio oedd derbyn y cynnig o swydd fel ysgrifennydd parhaol i Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr yng Nghymru, ond gorfu iddi roi'r gorau i hyn oherwydd gwrthwynebiad ei rhieni a ofidiai am ei gyrfa. Bu'n athrawes yn Ysgol Ramadeg y Merched Penybont am gyfnod, ac ar ôl hynny yng Nghaerdydd.

Fe briododd Alun Humphreys o Gaerdydd ym 1938 ac aethant i Wrecsam i fyw lle bu'n weithgar ym mywyd Cymraeg a chrefyddol y dref. 'Roedd hi'n un o'r lleiafrif brwd ac effeithiol a lwyddodd i sefydlu ysgol gynradd Cymraeg yno ar ddechrau'r 1940au.

Ganed dau o blant, Gwen ac Iwan, cyn i'r teulu symud yn ôl i Gaerdydd, ac yno eto bu'n ddiwyd yn cefnogi'r pethau. Datblygodd ei heddychiaeth o'i chrefydd, ac 'roedd hi'n frwd o blaid 'CND' yn y ddinas. Roedd hi hefyd yn gyson gefnogol i Blaid Cymru ac aelod gweithgar o'r dyddiau cynnar. Ar faterion yr iaith bryd hynny ei phrif gyfraniad oedd fel ysgrifenyddes i'r pwyllgor a gadeiriwyd gan y diweddar ac annwyl Gwyn Daniel i sefydlu ysgol Gymraeg gyntaf y brifddinas. Ac yn ei blynyddoedd olaf enghraifft o'i gweithgarwch gwirfoddol dros yr iaith oedd cyfieithu'n helaeth ddeunydd dysgu ar gyfer Ysgol Gyfun Glantaf.

Ar hyd ei hoes, bu'n deyrngar ac ymroddedig i fudiadau heddwch, crefydd, cenedlaetholdeb a'r iaith. Ond er cymaint ei brwdfrydedd cyson a chadarn, roedd hi'n berson hynod o hoffus a chymwynasgar. Fe fydd llawer un yn cofio'r croeso a'r lletygarwch ar ei haelwyd yn Wrecsam a Chaerdydd.

Ni chafodd gystal iechyd tua diwedd ei hoes, ond brwydrodd ymlaen yn dawel a di-gwyn.

## COLLI MAM

Hyd ei marwolaeth yn ddiweddar treuliai Mam ei gaeafau efo ni yng Nghaerdydd. Roedd mewn gwth o oedran ac yn wael ei hiechyd, er hynny, ar ei phen ei hunan yn ei chynefin yn y Fro Gymraeg yr hoffai fod yn ystod yr Hâf. Yno cai fynd i Ganolfan Henoed dridiau'r wythnos a mwynhau cwmnïaeth cyfoedion - yn ei hiaith ei hunain.

Bywyd go wag a gai yn y Brifddinas, adnabod fawr neb a threulio'r rhan fwyaf o'i dyddiau yn y tŷ. Cai gysur o fod ymysg ei theulu ond wedyn roeddem ninnau'n brysur wrth ein gwaith. Bu awgrymu iddi fynychu Canolfan Henoed leol ond gwrthod a wnaeth gan fod cymdeithasu trwy'r 'iaith fain' yn anodd iddi.

Wedi'i cholli gofidiaf fwyfwy na chafodd fwynhau bywyd 'digonol' tra'n byw gyda ni. Bûm yn trafod hyn â chyfeillion a chydnabod a sylweddoli mai nid sefyllfa unigryw mohoni. Mae llawer wedi symud i fyw yma o ardaloedd Cymraeg a bellach mae'r un rhiant a oroesodd yn treulio cyfnodau meithion gyda hwy.

Tybed a oes yna fan cyfarfod ar gyfer Henoed Cymraeg Caerdydd yn bod? Os nad oes, yna a fyddai'n bosibl sefydlu un? Rhywle lle gallent dreulio diwrnod neu ddau yr wythnos yng nghwmni'i gilydd, lle gallent gael sgwrs a phryd bwyd a phaned, lle byddai adloniant neu weithgaredd ar eu cyfer, lle gallent fod yn agos at eu gwreiddiau'n ieithyddol os nad yn ddaearyddol. Byddai'r fath ddarpariaeth wedi gwneud byd o wahaniaeth i ansawdd bywyd Mam.

Diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad ar ôl ei cholli; bu'n gymorth mawr i mi a'r teulu.

Cathi Jones

## DIOLCH

**Mae Alan, Glyneth, Leo a Ceiri Torjussen yn dymuno diolch yn gynnes am bob caredigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad a thaid annwyl.**

# ysgolion

YSGOL NEWYDD RADNOR

Llongyfarchiadau mwyaf calonog i Mrs Cerys Davies ar ei dyrchafu i swydd Prifathrawes y bumed ysgol Gymraeg Gynradd yng Nghaerdydd.

Cyn mynd yn athrawes i'r ysgol bu Mrs Davies yn uchel ei pharch yn dysgu yn Ysgol Coed-y-Gôf - y plant yn ei charu ac yn gweld ei heisiau'n fawr. Roedd pob un yn falch iawn i weld yr ysgol newydd yn cael athrawes mor dalentog i'w tywys trwy cyfnod caled o fod yn Ysgol Lansdowne heb eu cartref nhw ei hunain.

Erbyn hyn mae'r cyfnod hwnnw drosodd a mae pawb yn ymfalchio i weld i'r awdurdod ei phenodi hi yn brifathrawes ar yr ysgol newydd. Diolchwn yn gynnes iawn iddi am ei dyfalbarhad a dymunwn bob llwyddiant iddi ar ei gwaith pwysog newydd.

Maes o law cawn glywed enw newydd yr ysgol a mae'n siwr bydd dewis lliwiau a gwisg hefyd.

YSGOL GLANTAF

Bydd 'na dipyn o newid yn nghyfansoddiad y Staff ddiwedd y tymor. Byddwn yn colli Keith Jones (Dirprwy Bennaeth) sy'N mynd i'r BBC i gynllunio rhaglenni addysg ar gyfer teledu. Hefyd Mererid Glaze, Lynne Rees ac Angharad Roberts. Dymunwn yn dda iawn iddyn nhw oll.

Bydd rhaid inni ffarwelio hefyd ag Elisabeth Williams, Adran Bioleg, gan ei bod yn ymddeol oherwydd afiechyd. Ein dymuniadau gorau iddi am adferiad llwyr a buan.

Yn sgil sawl ymddeoliad o swyddi addysg yn ysgolion Caerdydd fe fydd o reidrwydd, benodiadau newydd. Mae rhai ohonyn nhw eisoes yn hysbys a rhai heb eto eu cyhoeddi. Byddwn yn rhoi sylw i'r cyfan yn rhifyn mis Medi gan estyn iddyn nhw ein Llongyfarchiadau, ein dymuniadau da - a'n croeso i newydd-ddyfodiaid.


YN EISIAU:

CYMRAES BROFFESIYNOL I RANNU TY YN NHREGANNA. FFON: 30337


PENODI

Penodwyd Mrs. Sarah Barr i olynu Ken James fel prifathrawes ysgol Brynderi, Radur. Un o ferched Cynghordy, ger Llanymddyfri, yw Mrs. Barr a bu'n ddirprwy brifathrawes ysgol Coed y Gof ers pan agorwyd yr ysgol ym 1981. Ennill ysgol Brynderi bydd colled addysg Gymraeg gynradd yn y brif ddinas. Dymunwn yn dda i Mrs. Barr yn ei swydd newydd.


AR WERTH

TELYN

GRECIAN ERARD

Ffonier (0222) 763251



CYLCH MEITHRIN PENTREBAEN
YN EISIAU

ARWEINYDD A CHYNORTHWYWRAIG

15 awr yr wythnos - Cyflog i'w drafod
Cymwysterau: NNEB; Tystysgrif Athrawes Babanod neu wedi dilyn Cwrs Meithrin.
Ffôn: Caerdydd 552153

# Canolfan yr Urdd

Ar ddiwrnod heulog yn mis Mai teithiodd unarddeg o fechgyn yr Aelwyd i Aberystwyth i gystadlu am Gwpan Pantyfedwen (Prif gystadleuaeth Pêl droed yr Urdd).

Cafwyd dechreuad ofnadwy i'r gêm pan sgoriodd y gwrthwynebwyr sef Rhydypennau yn y munudau cyntaf. O gofio mai Rhydypennau oedd pencampwyr llynedd ar blwyddyn cynt nid oedd pethau'n argoeli'n dda!

Ond wedi ail ddechrau a setlo lawr unwaith eto llwyddodd Huw i rwydo i wneud y sgor yn gyfartal 1-1.

Yna yn dilyn rhediad bendigedig i lawr ochr chwith y cae, baglwyd Sion Lewis, asgellwr chwmiwth yr Aelwyd yn y blwch cosbi a chwythodd y dyfarnwr am gic o'r smotyn. Eurwyn a gymrodd y cyfrifoldeb a chladdu'r bel yng nghornel chwith y gôl gan wneud y sgor yn 2 - 1.

Ond cyn hanner amser gwelwyd camddealltwriaeth yn amddiffyn yr Aelwyd a treuliwyd yr egwyl â'r sgôr yn gyfartal 2 - 2.

Parhaodd y frwydr yn yr ail hanner ond llwyddodd y gwrthwynebwyr i sgorio ddwywaith wrth i'r daith hir yn y bore ddechrau effeithio ar goesau tîm Caerdydd. Ond ym munudau ola'r gem ergydiodd Rhys foli lletraws a danfon y bêl heibio i ewinedd y gôl geidwad i gefn y rhwyd. Cyn i'r Aelwyd llwyddo cael ail meddiant o'r bêl chwibannodd y dyfarnwr a dyna ddiwedd ar y gêm.
Y sgôr terfynnol felly Rhydypennau 4 - Aelwyd Caerdydd 3.

Diolch yn fawr i Owen Rhys am drefnu'r tîm ac i Mark a Iolo am gymryd ei tro yn y gôl.

**************

Mae'r Ganolfan yn trefnu taith feics noddedig "O Gastell i Gastell", na nid o Gaerdydd i Gaernarfon ond o Gaerdydd i Gastell Coch yn lle. Felly os welwch chi un o bwyllgor rheoli'r Ganolfan neu aelod o'r aelwyd yn seiclo lawr y stryd - noddwch e!

Cofiwch hefyd am Fini Firi Farathon yr Urdd, sef cyfle i redeg 12 milltir o amgylch Llyn Tegid. Wrth wneud hyn a thrwy gael eich noddi fe allwch godi arian tuag at unrhyw achos da ee : Canolfan yr Urdd Caerdydd. (Gellir cael ffurflenni noddi o Swyddfa'r Urdd Aberystwyth).



TIM LLWYDDIANNUS Y WERN

Llongyfarchiadau i dim peldroed Ysgol y Wern am ennill y gwmp ddwbl sef Cwpan Cynghrair Ysgolion Cynradd Canol Caerdydd a Chwpan Goffa John Davies. Cant eu anrhydeddu yn Neuadd y Ddinas ym mis Mehefin.



Cafwyd bore llwyddiannus yn Ysgol y Wern yn ddiweddar yng nghwmni Terry Holmes, Cyn-Gapten Tim Rygbi Cymru, pan gynhaliwyd rhedeg nawdd i Guriad Calon Cymru gan blant yr ysgol. Codwyd yn agos i fil o bunnoedd drwy haelioni'r plant, y teuluoedd a'u cyfeillion.


HYSBYSEBWCH YN

Y DINESYDD

AM FANYLION
CYSYLLTER A
TONY COUCH
2 CRYSTAL GLEN
Y WAUN
CAERDYDD

FFON: CAERDYDD
753625 neu
615821 est 344



CLWB YR EOS
Y BARRI

Y N  E I S I A U

ARWEINYDD/ARWEINWYR ar gyfer

i) 8-11 oed
ii) 11+ oed

CYNIGIR TÂL SYLWEDDOL
Am fanylion pellach, ffoniwch:
Y BARRI 735472 neu 738687

# Arddangosfeydd Mehefin

Amgueddfa Genedlaethol Cymru

Y Prif Adeilad      Parc Cathays
ARDDANGOSFA ARTIST PRESWYL
10 Mehefin - 10 Gorffennaf

Fel y nodwyd eisoes yn y golofn hon, bu Barrie Cook yn treulio chwe mis o fis Hydref diwethaf yn gweithio mewn stiwdio dros dro yn y Prif Adeilad.

Gwnaed detholiad o weithiau'r artist ar gyfer yr arddangosfa hon, sy'n cynnwys peintiadau a wnaed yn ystod y tymor preswyl.

Neuadd Llanofer

Heol Romilly
DYLUNIAU A PHEINTIADAU
ANTHONY GOBLE ac IWAN BALA
tan 29 Mehefin

Y ddau yn aelodau o Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr Cymru; ac Iwan yn aelod o Gweled yn ogystal yn cyd-ddangos unwaith eto. Gwelodd llawer eu gwaith yn yr arddangosfa 'Gweld Llais a Chlywed Llun' yn Oriel Plas Glyn-y-Weddw yn ystod Eisteddfod Porthmadog y llynedd. Iwan eisoes wedi arddangos yng Nghaerdydd. Dyluniodd Iwan y cerddi gan Iwan Llwyd yn y gyfrol 'Dyn Dan Anasthetig' a gyhoeddwyd yn ddiweddar.




Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru

Heol Bute
MORDEITHIAU'R GLANNAU

Adroddir hanes y modd y cariwyd pobol ar fordeithiau o gylch glannau Cymru - De a Gogledd, mewn arddangosfa barhaol newydd gan yr Amgueddfa, yn ardal y dociau Caerdydd. Yr hen 'Q-Shed' yw cartre'r arddangosfa. Arddangosir casgliad diddorol o fodelau, gwrthrychau a pheintiadau.

Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan
NANSI: BRENHINES Y DELYN
tan Awst 31

Arddangosfa o luniau sy'n olrhain gyrfa gerddorol telynores Maldwyn - Dr Nansi Richards Jones MBE 1888-1979. Cynhwysir recordiau sain ohoni yn canu'r delyn.

Y mae arddangosfa GERALLT GYMRO yn parhau yn y Brif Adeilad tan 30 Hydref.

The Ffotogallery

Heol Siarl
TUA'R ZERO ABSOLIWT      PETER FRASER
TRUMWELDEDD              JOHN DAVIES
tan 18 Mehefin

Y mae Peter Fraser yn un o brif ffotograffwyr lliw Prydain.

Daw arddangosfa John Davies a gwaith dros gyfnod o 12 mlynedd ynghyd. Gwaith yn canolbwyntio ar dirluniau o Iwerddon; Yr Alban; gogledd Lloegr ac Ardal y Llynoedd.

Oriel Taflen

12 Duke St Arcade

Menter newydd fel rhan o fusnes siop lyfrau Taflen, fydd Oriel newydd i arddangos darluniau ar y llawr isaf. Agorir yr oriel am y tro cyntaf ar ddydd Sadwrn 18 Mehefin, pryd yr arddangosir peintiadau a dyluniadau - gwaith dau ddimensiwn yn bennaf, gan nifer o artistiaid gwahanol. Bwriedir cynnal arddangosfeydd o waith unigolion ac efallai grwpiau yn y dyfodol.
Estyniad yw hyn at y fenter o ddangos a gwerthu crefftwaith sydd eisoes wedi dechrau.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

Aelod o FIMBRA

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**


# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? Mae'n ddiwrnod dwl a gwyntog yma yng Nghaerdydd, mae fy nesg wedi ei hulio a papurau - syniadau am eitemau i raglenni, llythyrau isio'u hateb ag erthyglau o gylchgronau a papurau dwi isio'u darllen pan ga'i amser. Petawn i'n medru dianc oddi yma a mynd adre fyddwn i ddim elwach gan fod yno jobsus di rif angen eu gwneud - felly ffwrdd a mi ar adennydd chwim y côf - mi allai deimlo'r gwres, gweld lliw glas y môr ag mae Ynys Guernsey tu ôl i mi tu hwnt i'r ewyn gwyn yn ôl y cwch, a Herm yn dalog o fy mlaen, mae hi yno yn aros amdanom ni. Traethau tywodlyd sydd o'i chwmpas a gwymon am y gwelwch chi. Caeau braf a silage, gwellt glas ag ŷd gyda cloddiau twt yn eu rhannu nhw. Mae yno faernordy, lle mae'r teulu sydd yng Ngofal yr ynys yn byw, eglwys fach ag iddi ffenestri lliw syml gyda'r dela i mi weld erioed, un ohonyn nhw'n darlunio stori Noa. Mae llawer o'r tai twristiaid yn eu tro. Y Mermaid ydi'r dafarn - ag mae hi o fewn stryd o 5 o dai a bwthyn i'r Ship a gwesty'r White House. Rhyw filltir a hanner ydi hyd yr ynys a hanner milltir ar draws ag mi gymrith tua awr a hanner i'w cherdded ar hyd y llwybyr troed rownd ymyl yr ynys gan aros bob yn hyn a hyn i ddotio ar yr olygfa draw am Sark, Jotu neu Guernsey. A rhyngom ni a nhw mae gwelyau wystrys, a chregyn gleision - doedd dim ond angen eu casglu ag mi fyddai cogydd y Mermaid yn fwy na bodlon eu berwi nhw - doedd dim ond isio awgrymu byddai cimwch yn dda i ginio - ag mi roedd yno ar blât.

Pryd welsoch chi fysedd y cwn, blodau menyn, a llygad y dydd yn tyfu'n doreithiog a boptu llwybrau? Pryd glywsoch chi'r Gog yn canu'n ddyddiol ddiwetha?

Dyna i chi nefoedd o le i fwrw'r Sul ag mi fedrwch gyrraedd y lle o fewn 3 awr o Gaerdydd.

Dwi'n well rwan wedi cael crwydro ar adain côf - mi daclai'r ddesg 'ma rwan.

**TAITH CERDDORFA'R BBC**

Teithiodd 92 o aelodau Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC i Rwsia am gyfres o gyngherddau. Cafwyd dau gyngerdd yng ngefeilldref Caerdydd - Voroshilorograd. Yno bu'r gymeradwyaeth yn fyddarol a'r Arweinydd Tadaski Otaka yn cael ei amgylchynu gan flodau. Byddant yn symud wedyn i Leningrad, ac edrychwn ymlaen at gael eu hanes pan ddont yn ôl. Mae taith fel hyn yn swnio'n rhamantus - ond cafodd merch y Golygydd alwad ffôn am 4.20 y bore (amser Rwsia) am ei bod yn methu cysgu oherwydd bod 'cockroaches' yn ei llofft ac yn tystio bod y bwyd yn ddifrifol. Er hynny teimlai'n gynnes iawn tuag at y bobl. Profiad ydi popeth ynte!

Yn hwyr yn y dydd, ond, gwell hwyr na hwyrach, cydymdeimlwn a cholofnydd 'Ser y Dinesydd' ar ei phrofedigaeth yn ddiweddar o golli ei thad.

# DOC

Teyrnged? Mi roedd yn destun llyfr. Nid nofel ychwaith, oherwydd go brin y byddai unrhywun yn credu straeon ac anturiaethau "Doc". Mi roedd pob dim amdano yn fawr.

Ei sgwrs yn llith o gyfeiriadau ar "anacondas neu terrodactylus" ac ambell fwchadanas. Un gwrandawr oedd ei angen, mi roedd torf yn siwr o gasglu i wrando ar hanesion blynyddoedd y Llu Awyr yn Sant Athan a Salisbury, magwriaeth ym Mhenygroes, ysgol Llandei a'r flwyddyn anhygoel ym Mhrifysgol Caerdydd.

Na, doedd e ddim yn ddoctor go iawn, ond i feddygon a nyrsys Caerdydd, Penybont a'r cylch, roedd y chwibanu uchel, y chwerthin a'r cyffro, yn golygu bo "Doc" wedi cyrraedd yr ysbyty, a'r sioe ar fin dechrau.

Dros ei gwmni, Geigy, roedd e'n lysgenhadwr a gwerthwr arbennig. Derbyniodd wobr unwaith ar ôl gwerthu mwy o gyffuriau na neb arall drwy Brydain. Aeth i'r Bahamas a dychwelyd yn llawn straeon am "pink washed cottages nestling in the undulating torrents of the Carribbean" ac mi roedd maint y cimwch a fwytodd, yn naturiol yn "seis bwchadanas!"

Daeth nifer yw adnabod fel canwr dawnus, yn aelod o gwmni Opera Penarth, Côr Pendyrus a Chôr Aelwyd yr Urdd yng Nghaerdydd. Nos Wener yng nghapel Westgrove, dyna lle y byddai Dr Dafydd Hughes yn canu'r nodyn cywir yn ei glust, gan wybod os nad oedd Jones yn gwybod y geiriau, o leia roedd e'n medru cyrraedd yr uchelfannau. Cafodd wersi canu, ond roedd disgyblaeth yn beth prin yn ei fywyd.

Yna'r gêm. Rygbi oedd un o'i brif ddiddordebau, hyd yn oed cyn cwrdd a'r hyfforddwr a'i gyfaill Carwyn James. Yn ei lencyndod roedd e'n baffiwr, medrus, ond aeth y blynyddoedd heibio, ac yn addas iddo, sef yn y rheng flaen. Chwys ar ei dalcen, gair o gyngor barddol i'r ref, y shorts llawer rhy fach a Jones yn trin y bêl fel ballerina nerfus.

"Dere a'r bêl i fi" meddai yng nghanol gêm yn erbyn Newport Saracens. Y bêl o dan ei gesail, dyma pawb yn rhyfeddu i'w weld yn gwneud hanner dwsin o symudiadau annesboniadwy heb symud o'r unfan, ac yn cael ei daclo gan y gwrthwynebydd cynta i'w gyrraedd. Treuliodd gweddill y tîm pum munud yn eu dwble tra roedd Jones ar ei gefn, yn breuddwydio am y sgôr na fu.

Roedd ar ei orau, neu ar ei waetha mewn pwyllgor. "Indeed!" meddai, os yn anghytuno a'r sylwadau, ac yn datgan fel yr oedd hi yn mynd i fod, ac, mi fyddai'r geiriau "Tshwm, Tshwm" a'i ddwrn ar y bwrdd yn golygu bod y cynnig wedi ei dderbyn heb unrhyw bleidlais.

Ar ôl priodas fer, aeth ati i gynnig llety i nifer o bobl, ac yn ei plith, Carwyn James. Dyma gychwyn cyfeillgarwch a ddenodd mawrion y byd rygbi i "Toffnell Mansions" a chartre Angharad Tranchard-Jones, y gath. Oriau difyr, yng nghwmni ysgrifenwyr, chwaraewyr rhyngwladol, nofelwyr a beirdd. Jones yn pregethu am y gêm fodern, James yn gwrando, ac yn y diwedd yn dweud wrtho bod y cawl ar fin llosgi. dyma ei ddyddiau mwya hapus, ond dyma ddechrau y diriwiad terfynol.

Oedd, mi roedd y blynyddoedd ar ôl marwolaeth Carwyn yn rhai blin, anodd ac unig. I'r rhai a bu yn deyrngar i'r hen frawd, Dafydd, Arthur a Geraint, roedd y galwadau i'w helpu yn ffyrnig o boenus. Gwerthwyd y "mansions" ac aeth i fyw i Ffynnon Dâf, lle bu cymdeithas Gwaelod y Garth a'r capel o gysur mawr iddo.

Fel cymwynaswr a chwmnîwr, roedd yn hael a'i wedd a'i boced.



Llongyfarchiadau i barti'r 'Twrch Trwyth', ar ennill y gystadleuaeth dawnsio gwerin yn yr Wyl Ban-geltaidd yng Nghilarne eleni, ac i aelod arall o'r parti, Sirian Davies, ar ddod yn ail yn y ddawns unigol. Pob llwyddiant iddyn nhw yn y dyfodol.

# 'STEDDFOD

Erbyn i'r Dinesydd ymddangos fe fydd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Y Drenewydd wedi dod ac wedi mynd. Gwyddom fod llawer o blant y ddinas wedi cystadlu a hynny gyda'n dymuniadau gorau a'n gobeithion am lwyddiant. Ond llwyddiant neu beidio, rhown glod iddyn nhw a'u Hyfforddwyr am eu gwaith ac am gadw enw Caerdydd a'i Chymreictod byw ar y map.

Ac i'r Wyl Fawr nesaf, sef yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghasnewydd, dymunwn lwyddiant ysgubol at wledd arbennig iawn a fydd yn deilwng o holl weithgareddau'r Cymry ymroddgar sy'n trigo yno ac yn deyrnged i'r rhai hynny sydd heb gael y cyfle i adnabod ein hiaith sydd wedi troi ati'n ddiflino i godi arian a chefnogi'r ymdrechion ymhobn dull a ffordd.




**Ysgrifennydd newydd neu yn hytrach Ysgrifenyddes!**

Mae'n dda gennym gyhoeddi fod Mary Jones, Ffynnon Daf, wedi cytuno i ymgymeryd â'r swydd o Ysgrifennydd Pwyllgor y Dinesydd. Fe ddaeth hi yn ddiniwed reit i gyfarfod o'r Pwyllgor yn ddiweddar a chael ei dyrchafu'n ddisymwth i'r swydd. Mae ein diolch yn fawr iddi am ei dewrder a'i hymroddiad a dymunwn iddi rwydd hynt yn ei gwaith.

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Betsan Gerallt ar ei phenodiad yn Athrawes Gerdd yn yr Ysgol Gymraeg newydd yng Nghwm Carn, Gwent. Da iawn, Betsan, a phob hwyl ar y cystadlu yng Nghasnewydd!

# Gwobrwyo Bardd

Un o brif wobrau y byd gerddorol Saesneg yw Gwobr Eric Gregory. Fe'i cynniger i feirdd ifainc dan ddeg-ar-hugain oed gyda'r bwriad o gydnabod eu gwaith hyd yma ynghyd â rhoi hwb ariannol i'w gyrfan llenyddol yn y dyfodol. Eleni o 150 ymgeisydd, dyfarnwyd y wobr i Gwyneth Lewis, ferch Gwilym ac Eryl Lewis o Birchwood Road, Pen-y-lan, i'w cynorthwyo tra bydd yn cwblhau ei gwaith ymchwil ar gyfer gradd PhD yn Rhydychen ac i'w galluogi, o bosibl, i weithio am gyfnod ar ei liwt ei hun ar ôl hynny. (Testun ei hymchwil yw "Literary Forgeries" gyda pheth astudiaeth o waith Iolo Morgannwg - edrychwn ymlaen at weld ffrwyth ei llafur). Derbyniodd y wobr ar ôl cyfweliad â phanel Eric Gregory ac yn ystod y trafodaethau fe'i holwyd yn fanwl ynglŷn â barddoniaeth Cymraeg - testun wrth ei bodd gan fod Gwyneth, wrth gwrs yn barddoni yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg; y llynedd, fe'i gosodwyd yn y dosbarth cyntaf yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Porthmadog ac ar ben hynny dewiswyd barddoniaeth o'i heiddo, ynghŷd â gwaith Euros Bowen, i gynrychioli Cymru mewn detholiad o ganu byd-eang a gynhyrchwyd gan gylchgrawn Americanaidd.



Bu'r Amerig yn rhan o fywyd Gwyneth cyn hynny gan mai yno yr aeth hi i astudio ym Mhrifysgolion Havard a Columbia ar ôl ennill gradd yn Nghaergrawnt. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Rhydfelen a phryd hynny, fel aelod o'r chweched dosbarth, ennillodd fedal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ddwywaith (yn Y Barri a Llanelwedd).

'Doedd Gwyneth ddim gartref pan aeth y Dinesydd ar ei thrywydd, gan ei bod yn ffilmio ar gyfer cyfres o raglenni (Trafodaethau â llenorion) y bydd yn eu cyflwyno ar S4C ym mis Gorffennaf. Ond estynnwn ein llongyfarchiadau cynhesaf iddi gyda'n dymuniadau gorau ar gyfer ei dyfodol - fel cyflwynydd, gohebydd a bardd.

YR ACADEMI GYMREIG

Gwobr Goffa Griffith John Williams

Nansi Selwood o Benderyn, Aberdâr sydd ym marn Yr Academi Gymreig yn deilwng o WOBR GOFFA GRIFFITH JOHN WILLIAMS eleni am ei nofel "Brychan Dir" a gyhoeddwyd gan Wasg Gwynedd. Ystyriwyd pob nofel wreiddiol a gyhoeddwyd yn ystod 1987 ac eithrio llyfrau plant a gwaith aelodau'r Academi eu hunain. Y beirniaid oedd Rhiannon Davies Jones, W R P George, a John Roberts Williams.

Daw Nansi Selwood yn enedigol o Benderyn. Graddiodd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd mewn Hanes ac ar ôl cyfnod o ddysgu yng Nghaerdydd, Pwllheli a Gwent aeth yn ôl i'w chartref ym Mhenderyn i ffermio. Ar wahân i ysgrifennu rhai erthyglau i BARN a chylchgronau eraill, hobi'n unig oedd ysgrifennu i Nansi Selwood. "Brychan Dir" yw ei nofel gyntaf a leolir yn ardal Penderyn yn hanner cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg yn ystod teyrnasiad Iago I a'i fab Siarl I. Ceir yma nofel ar ganfas eang a manwl a fu'n ffrwyth ymchwilio trylwyr, ond pennaf rin y gwaith yw'r cyflwyniad o iaith lafar bersain y fro. Craidd y nofel yw hanes tylwyth Bodwigiad ac yn sicr mae yma gynhaeaf bras gogyfer ag ail nofel.

Ar hyn o bryd mae Nansi Selwood yn gweithio dan gomisiwn Cyngor Celfyddydau Cymru, mewn project sydd yn cynhyrchu nofelau hanes i blant. Mae'r awdures yn gweithio ar hanes Dafydd Gam gyda nofel aleolir ym Mrycheiniog unwaith eto.

Cyflwynir y wobr o £200 a rhwymiad arbennig o'r gyfrol i Nansi Selwood mewn cyfarfod cyhoeddus ym Mhenderyn ym mis Mehefin.

Gweithdai Ysgrifennu Creadigol

Diolch i haelioni un o gwmnïau mwyaf llwyddiannus y wlad hon, sef Marks & Spencer, bydd yr Academi Gymreig yn gallu trefnu dau weithdy yng Nghaerfyrddin ar ysgrifennu creadigol, boed hynny'n farddoniaeth neu'n ryddiaith. Mae Marks & Spencer yn un o'r cwmnïau prin hynny sydd wedi datgan eu diddordeb mewn noddi llenyddiaeth, gan gynnwys llenyddiaeth Gymraeg, a rhoddwyd £900 i'r Academi i gynnal gweithdai a chyhoeddi llyfryn o gynnyrch y gweithdai hynny.

Cynhelir y gweithdai yn Llyfrgell y Dref, Caerfyrddin nos Wener a bore Sadwrn 17-18 Mehefin gyda MENNA ELFYN yn gyfrifol am y gweithdy barddoniaeth a SION EIRIAN yn gyfrifol am yr un rhyddiaith. Disgwylir i fynychwyr y gynhadledd ddanfon esiampl o'u gwaith at y tiwtoriaid cyn y gweithdy ac yna bydd cyfle iddynt derbyn barn, cyngor ac awgrymiadau'r tiwtoriaid. O reidrwydd, dim ond cyfle i nifer fechan o ddarpar-lenorion a roddir er mwyn i ni allu cynnig gwasanaeth bersonol iddynt. Ar y nos Wener ar ôl y sesiwn gwaith bydd cyfle i bawb ymlacio yn nhafarn y LLEW AUR pryd y ceir noson o ddarllen barddoniaeth a gwaith creadigol arall gan lenorion newydd ynghyd â rhai mwy profiadol.

Mae MENNA ELFYN wedi cyhoeddi pedair cyfrol o farddoniaeth ei hun ac wedi golygu dwy gyfrol arall. Bu'n awdur preswyl yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan rhwng 1984a 1985. Cafodd Ysgoloriaeth Cyngor y Celfyddydau i ysgrifennu'n llawn amser yn 1981 ac yn 1977 enillodd wobr Cyngor y Celfyddydau am ei chyfrol 'Stafelloedd Aros'. Mae ganddi brofiad helaeth o gynnal gweithdai gyda phobl o bob oedran.

Mae SION EIRIAN yn adnabyddus i wylwyr S4C fel awdur gyfres 'Bowen a'i Bartner'. Mae'n ddramodydd dawnus gyda'i ddrama 'Marwolaeth yr Asyn o Fflint' yn un o'r dramau cyntaf i ymddangos ar S4C. Ysgrifennodd ddwy drama Saesneg - 'Rhys Lewis' a 'Crash Course'. Cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth 'Plant Gadara' ynghyd â nofel 'Bob yn y Ddinas'.

Os hoffai'r darllenwyr gymryd rhan yn y gweithdai hyn, dylent ysgrifennu rhag blaen at Siân Ithel, Trefnydd Yr Academi Gymreig, Tŷ Mount Stuart, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF1 6DQ gan nodi eu diddordeb. Fel y dywedwyd eisoes, mae'r llefydd yn brin, felly y cyntaf i'r felyn fydd hi!!

# MARATHON




Dymuna Derek Griffiths ddiolch i'w ffrindiau a'i gymdogion, rheolwyr siopau lleol ardal y Murch Dinas Powys am eu rhoddion noddi ac yn enwedig y prifathro a'r athrawon a llawer o'i ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydfelen a gyfrannodd ymhell dros hanner yr arian a ddaeth i law.

Trwy ei ymdrech gorfforol ef a'u haelioni nhw derbyniodd y mudiad ymchwil i blant anabl (Action Research) gefnogaeth ariannol. Mae Anne, ei wraig sydd newydd ymuno â pwyllgor cangen y mudiad yn Ninas Powys wrth ei bodd fod yr ymdrech wedi gwireddu'r nôd o godi £200 tuag at yr achos da.

Ar Ebrill 17 cyrhaeddodd Derek un o'i uchelgeisiau trwy redeg Marathon Llundain, ei 46ain ras leol. Sut bynnag, bu bron â cholli'r cyfle pan anafodd un o gyhyrau ei goes ddiwrnodau cyn yr achlysur. Fel canlyniad i hyn methodd wella ar 3awr 51munud a gymerodd i orffen Marathon Caerdydd yn 1983 ond roedd wrth ei fodd o gael y cyfle i gystadlu, a gorffen y 26.2 milltir mewn amser digon parchus. Daeth hyn â phleser mawr iddo gymaint â'r pleser o gyflwyno siec o £210 i'r mudiad a gwneud y diwrnod bythgofiadwy yn Llundain yn un teilwng.

Bydd stondin 'Action' yn gwerthu crysau T ac ati yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru eleni (Gorffennaf 30-Awst 6) yng Nghasnewydd (Parc Gwledig Tredegar) a gwahoddir pawb i gynorthwyo'r achos arbennig yma.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 82




AR DRAWS
5. Sŵn clychau'r dŵr (6)
6. "...., onid llawer mwy y - ---- chwi, ..." (Mathew VI T N N) (6)
9. I fod yn deg, dylid ei chadw heb droi (6)
10. Ai Elisabeth o Fôn oedd La Gioconda? (4, 4)
11. Hanner y gefynnau (4)
12. Trefn a sy'n arllwys yn anhydrin (10)
13. Anewyllysgarwch a ddangosodd y pum morwyn ffol? (11)
18. Ceinder sydd ar gael gan W F D Prytherch (10)
21. Adda ac Efa yn cyffesu ac yn ail-ddechrau ynghyd (4)
22. Mynydd y bardd-bregethwr (8)
23. Llinynnau seddfed? (6)
24. Y Gorchfygwr (6)
25. Fe ddaru ti fynd yn barchus (6)

I LAWR
1. Yng Ngwynedd, 'slawer dydd (3,5)
2. Nofel gan T R H (6)
3. Arferion wedi mynd yn rhan ohonoch (3,5)
4. Swydd Cyreniws yn Syria, gynt (6)
5. Egin yn baglu o gwmpas pen rwden (6)
7. Craffu ar leoliad y sêr (6)
8. Fe gei di fudd mawr o gofio mytheg y drefn (11)
14. Siaradwr nad oes arno angen sgript na meic (8)
15. Fe fu'n fud yn y fan hon, ---- fe ddaru fynd (8)
16. Adar ar ben y twyn ---- dyma gyfle a hawl arbennig (6)
17. Ci a gladdwyd ar y ffordd i Ryd-ddu (6)
19. Uwchlaw tlodi, ond yn afraid (6)
20. Hanner dwsin o anrhegion ----- a'r olaf yn y drefn (6)

DATRYSIAD RHIF 81

Ar Draws: 9. CHWARELWYR; 10. ATEBA; 11. ANADLWN; 12. MODURDY; 13. AFAL; 14. CNAF; 15. TRAMP; 16. YMRYSON; 18. DINISTR; 20. EWYTHR; 22. CRAFF; 23. PERY; 24. NEGYDDOL; 25. TRAMWYO; 27. ORDRO; 28. CAERGWRLE;

I Lawr: 1. OCHR ARALL Y GEINIOG; 2. BARA LAWR; 3. PERL; 4. GWENYNEN; 5. TRYMAF; 6. CARDOTYN; 7. DEORFA; 8. CARYL PARRY JONES; 17. SERYDDION; 18. DRACHTER; 19. S PEDWAR C; 21. YMGADW; 22. COLECT; 26. ARGO;

Cystadleuaeth Rhif 81
Derbyniwyd bymtheng ymgais , sef oddiwrth Marged Davies, Llandâf; Dilys Gunston Jones, Cyncoed; Rhian James, Yr Eglwysnewydd; John Hughes, Llanishen; Cliff Jones, Llanbedr-y-Fro; Elen H Lewis, Radur; Marged Jones, Cyncoed; Robin Bateman, Yr Eglwysnewydd; Rhian Williams, Gery-llyn; Huana Simpson, Y Bontfaen; B T, Cyncoed; B H, Cyncoed; Myfi Cosslett, Y Mynydd Bychan; Tecwyn Vaughan Jones, Thornhill a Haydn Thomas, Y Mynydd Bychan.

Yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn hollol gywir, ond cafwyd man-wallau mewn tair. O blith y rhai hollol gywir, enw Rhian James a dynnwyd, ac felly iddi hi yr aiff y tocyn llyfrau y mis hwn.

Cystadleuaeth Rhif 82
Yr amodau arferol. Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mehefin 15fed, os gwelwch yn dda.

---

Anfoner yr atebion at Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Mehefin 19eg.

FFITIACH

Daeth trydydd blwyddyn ar ddeg y dosbarth Cadw'n Heini i ddynion yn ysgol Glantaf i ben. Blwyddyn arall hynod o lwyddiannus o dan ei hathro, Mr. Arwel Owen. (Mae'r aelodau oll am ei longyfarch ar ei benodiad yn ddirprwy brifathro ysgol newydd Cwmcarn, Gwent). Ond bydd y dosbarth yn dal i gyfarfod yn answyddogol bob nos yn ystod yr haf ac yn edrych ymlaen i groesawu'n ol dau o'r ffyddloniaid, Huw Llywelyn Davies a Lynn Davies, sydd ar hyn o bryd gyda thim rygbi Cymru yn Seland Newydd. Trefnydd gweithgar y dosbarth ers y cychwyn yw Lloyd Evans. Diolch iddo am ei ddycnwch.

---

Bydd Susan John a Kay Davies yn ymuno â'r 'Great Welsh Walk' gyda'r Western Mail ar ddydd Sadwrn, 9fed o Orffennaf i gerdded o Gaerdydd i'r Bontfaen (15 milltir).

Mae'r ddwy yn gweithio i S4C, Kay yn yr Adran Gyfreithiol, a Susan yn yr Adran Gyllid Rhaglenni.

Bydd Kay yn codi arian at y 'British Diabetics Association' a Susan i 'Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru - Taf Elai (1991)'.

Os oes unrhyw un eisiau cyfrannu at y ddau achos, mae croeso i chi gysylltu a nhw yn S4C, neu os oes rhywun eisiau ymuno a nhw ar y daith - gorau po fwya'.

> Dylid anfon deunydd y rhifyn nesaf at y Golygydd, Coed y Pry, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, erbyn Mehefin 17eg. Gorau po gynted er hwylustod i'r teipydd.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Siriol a Robert Roberts ar enedigaeth eu merch, Lisa Heulyn - wyres newydd i Alwyn a Llywela, Gwenfô ac i John ac Siriona Roberts, Parc y Rhath, a chyfnither fach i Gruffydd, Dafydd ac Elin.

Dymuniadau gorau i'r teulu oll a chroeso i'r fechan.

---

Clywsom, ychydig oriau cyn inni fynd i'r wasg am enedigaeth mab (wyth pwys a deg owns) i Dylan a Frances Jones. Wrth inni eu llongyfarch nhw a chroesawu'r bychan, mae'n bleser gennym anfon ein cofion at rieni Dylan, Marion a Merfyn Jones, yn eu cartref newydd yn Newbury gan wybod y bydd yr ŵyr newydd yn atyniad arall yn Ne Cymru.

Ein llongyfarchiadau hefyd i rieni Frances, Dr a Mrs Louis McHugh, o Landâf.

---

LLongyfarchiadau i Eluned ac Owen Rook, 20 Lansdowne Avenue, Rhiwbeina ar enedigaeth eu hail blentyn, Tomos Lewis, brawd i Alys Gwenllian ac wyr i Mr a Mrs Lyn Evans, Cyncoed a Mr a Mrs Norman Rook, Y Barri.